# Dysgu Oedolion yn y Gymuned



Dysgu Oedolion yn y Gymuned
Adult Community Learning
RHONDDA CYNON TAF

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF

# Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Dysgu Oedolion yn y Gymuned
Adult Community Learning
RHONDDA CYNON TAF

## MAE COFRESTRU'N AGOR:

### 1pm | Dydd Mawrth 1 Medi 2026

Mae amrywiaeth o gyrsiau ar gael i drigolion 19 oed a throsodd ledled RhCT.







**Mae modd i chi gofrestru...**

### yn bersonol:

**Canolfan Dysgu Gydol Oes Yr Olwg**
**Heol Sant Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ**

**Dydd Mawrth 1 Medi | 1pm – 8pm**

Bydd staff yno er mwyn eich helpu chi i gadw lle ar gwrs.

Byddwn ni'n cynnal sesiynau blasu a bydd tiwtoriaid ar y safle er mwyn trin a thrafod y cyrsiau sydd ar gael.

### ar y ffôn:

**01443 570077**
Ar ôl 1pm

### ar-lein:

**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

**Byddwn ni'n cynnal diwrnodau cofrestru eraill drwy gydol y flwyddyn.**

Am ragor o wybodaeth:

**AddysgOedolion@rctcbc.gov.uk**
www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

## Croeso

**Cwrs Addysg i Oedolion yn y Gymuned yw'r cyfle delfrydol i ddysgu sgil newydd, cwrdd â ffrindiau newydd a chael dechrau newydd.**

Mae ein tiwtoriaid yn gyfeillgar, yn brofiadol a byddan nhw'n eich croesawu i'n cyrsiau ac yn eich helpu. Mae nifer o'n cyrsiau wedi'u hachredu gan Agored Cymru. Bydd hyn yn eich galluogi i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch pe baech chi'n dymuno ennill cymwysterau.

### Camau Dysgu RhCT

Mae'r cyrsiau Camau Dysgu yn darparu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu.

Mae'r cyrsiau'n eich annog i ddysgu sgiliau newydd, cwrdd â phobl newydd, dysgu ar gyflymder eich hun a gweithio gyda thiwtoriaid arbenigol. Mae'r cyrsiau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb ac ar-lein.

### Cymorth Saesneg a Mathemateg

Rydyn ni'n cynnig y cyfle i wella eich sgiliau Saesneg a Mathemateg mewn awyrgylch cefnogol gyda thiwtor profiadol a chyfeillgar. Mae cyrsiau'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn a chewch chi ymuno unrhyw bryd.

***Mae pob cwrs ar gael i ddysgwyr 19 oed a throsodd***

*MAE'R MANYLION YN GYWIR ADEG YR ARGRAFFU*

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

53931-22

## Cyfrifiaduron i Ddechreuwyr

**Os oes gyda chi ychydig neu ddim profiad o ddefnyddio Microsoft Word, bydd y cwrs yma'n berffaith ar eich cyfer chi.**

Hyd yn oed os ydych chi wedi dysgu eich hunan ac yn defnyddio Microsoft Word yn barod, bydd cyfle ichi ddysgu pethau newydd megis terminoleg Microsoft Word, ffyrdd haws i wneud pethau ar y bysellfwrdd a chyflawni'r hyn rydych chi'n ei ddymuno.

**Bydd y cwrs yma'n eich helpu i:**



- Creu dogfennau Microsoft Word
- Ymgyfarwyddo â'r ffordd mae popeth yn edrych ar y sgrin
- Dylunio'ch dogfennau chwaethus eich hun
- Deall terminoleg
- Ychwanegu testun a delweddau
- Newid testun, arddull a lliw

**Diane Dixon • Jeni Powell**

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM

## iPad yn unig

**Ar y cwrs yma byddwch chi'n dysgu sut i fwynhau defnyddio'ch iPad a dod o hyd i awgrymiadau, triciau a thechnegau i wneud argraff ar eich ffrindiau a'ch teulu.**

Mae'r cwrs yma'n berffaith os mai dyma'ch iPad cyntaf neu os ydych chi wedi cael un ers tro.

Mae modd defnyddio'r iPad i wneud llawer o bethau, megis; chwilio'r rhyngrwyd, pori drwy negeseuon e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol, darllen llyfr, gwrando ar gerddoriaeth a phodlediadau, chwarae gemau, gwylio ffilmiau, rhaglenni teledu a fideos YouTube, tynnu lluniau a'u trefnu mewn albwm a rhagor.

**Diane Dixon • Jeni Powell**

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM

**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

## Dyfeisiau Android

**Ar y cwrs yma byddwch chi'n dysgu sut i wella'ch sgiliau a magu hyder wrth ddefnyddio Dyfais Android.**

Byddwch chi'n dod i ddeall sut i lawrlwytho apiau a defnyddio gwahanol apiau, ynghyd â deall terminoleg ddigidol a sut i gadw'ch dyfais yn ddiogel.


P'un a oes gyda chi ddyfais ddigidol dydych chi ddim yn ei defnyddio neu os hoffech chi ddysgu rhagor amdani, bydd y cwrs yma'n eich helpu i wneud hynny.

**Jeni Powell**

**2 awr yr wythnos** | **15 wythnos** | AM DDIM







**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

# ICDL
# International Certification of Digital Literacy

## ECDL gynt

### I bwy mae'r cymhwyster yma?

**P'un a ydych chi'n dechrau o'r dechrau'n deg, neu'n gweithio â chyfrifiaduron yn barod, bydd y cymhwyster ICDL yn rhoi help i chi wella'ch sgiliau a'ch cynhyrchedd.**

Mae'r Dystysgrif Ryngwladol Llythrennedd Digidol (ICDL) yn helpu dysgwyr i ddeall cyfrifiaduron yn well. Mae hefyd yn hybu defnyddio meddalwedd mewn ffordd effeithlon. Mae cyflogwyr ledled y byd yn cydnabod y cymhwyster yn un safonol o ran sgiliau digidol a Thechnoleg Gwybodaeth defnyddwyr.

Yn Yr Olwg, mae'r cwrs ICDL yn yr ystafell ddosbarth wedi'i gynllunio i gael ei arwain gan ddysgwyr, gyda thiwtor ar gael i roi cymorth. Bydd gweithdai ychwanegol ar gael yn ystod cyfnod y cwrs.

Mae ein cyrsiau ar-lein yn cynnig yr hyblygrwydd i ddysgu yn eich amser eich hun, ar eich cyflymder eich hun, gyda chymorth gan diwtor ar gais.

***Bydd pob arholiad yn cael ei sefyll yn Yr Olwg***



**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

## ICDL
(ECDL gynt)

**Byddwch chi'n astudio:**

- Diogelwch TG i ddefnyddwyr Lefel 1
- Hanfodion cyfrifidauron Lefel 1
- Prosesu geiriau Lefel 2
- Meddalwedd taenlenni Lefel 2
- Meddalwedd cronfeydd data Lefel 2
- Meddalwedd cyflwyniadau Lefel 2
- Hanfodion ar-lein Lefel 1

Ar ôl cwblhau'r saith modiwl, byddwch chi'n ennill y cymhwyster ICDL llawn. Mae modd dilyn modiwlau unigol ar wahân hefyd.

**£160: 7 modiwl**
Yn cynnwys cofrestru ac arholiadau.
**45 wythnos**

**£40: Modiwlau unigol**
Yn cynnwys cofrestru ac arholiadau.
**15 wythnos**





## ICDL / ICDL Pellach
(Ar-lein)

**Mae Lefel 3 yn eich galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth ddigidol sydd gyda chi eisoes yn sail i ddod yn arbenigwr wrth ddefnyddio'r apiau meddalwedd sy'n hanfodol ym mhob busnes heddiw.**

P'un a ydych chi'n chwilio am swydd newydd neu ddyrchafiad, gall ychwanegu cymhwyster digidol at eich CV eich helpu i gyrraedd y nod.

**Byddwch chi'n astudio** (Lefel 3)**:**

- Prosesu geiriau
- Meddalwedd cyflwyniadau
- Taenlenni
- Cronfeydd data

Mae pob un o'r modiwlau hyn yn gymhwyster ar wahân, sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr benderfynu sawl un maen nhw am eu cwblhau.

**£60: Modiwlau unigol**
Yn cynnwys cofrestru ac arholiadau.
**15 wythnos**

**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

# IAITH ARWYDDION PRYDAIN (BSL)



**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

## Iaith Arwyddion Prydain (BSL) Dechreuwyr

**DECHREUWYR:**
I'r rheiny sydd am ddysgu Iaith Arwyddion Prydain o'r dechrau ac sydd heb ei dysgu o'r blaen.

Helen Thomas
**1 awr yr wythnos** **30 wythnos** AM DDIM

## Iaith Arwyddion Prydain (BSL) Gwella Sgiliau

**GWELLA SGILIAU:**
I'r rheiny sydd wedi dysgu Iaith Arwyddion Prydain yn flaenorol ac sydd am wella'u sgiliau.

Helen Thomas
**1 awr yr wythnos** **30 wythnos** AM DDIM

## Iaith Arwyddion Prydain (BSL) Canolradd

**CANOLRADD:**
Dyma gwrs ar gyfer dysgwyr sydd wedi ennill cymhwyster Iaith Arwyddion Prydain, ac sy'n gallu'i deall a'i defnyddio i gynnal sgyrsiau syml.

Helen Thomas
**1 awr yr wythnos** **30 wythnos** AM DDIM

**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

Cynhelir y cyrsiau yma yn yr ystafell ddosbarth neu ar-lein

## Hanes y Teulu

**Mae'r cwrs yma'n defnyddio "Ancestry" a "Find my Past" er mwyn eich helpu chi i hel achau.**

Byddwch chi'n dysgu sut i ddefnyddio cofnodion ymchwil megis cofnodion plwyf, cofrestrau etholiadol a ffurflenni cyfrifiad, yn ogystal â sut i archebu tystysgrifau a defnyddio tystiolaeth o bapurau newydd er mwyn dod o hyd i aelodau'ch teulu. Bydd y cwrs hefyd yn rhoi syniad gwell i chi o amodau byw eich hynafiaid. Byddwn ni'n dod i ddeall sut mae modd defnyddio elfennau o'n DNA i hel achau a sut mae hyn yn effeithio ar waith yn y maes.

Lisa Powell

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM

## Hanes Lleol

**Dysgwch am hanes De Cymru a'r ardal leol yn ystod y Chwyldro Diwydiannol a'r cyfnod dilynol.**

Bydd y pynciau y byddwn ni'n eu trafod yn cynnwys hanes gwleidyddol a chymdeithasol, effeithiau economaidd a newidiadau diwylliannol. Byddwn ni'n defnyddio ffynonellau cynradd ac eilradd i drafod y pynciau dan sylw. Bydd y cwrs yn croesawu siaradwyr gwadd ac yn mynd ar deithiau, gan fynd ati i ddefnyddio adnoddau'r llyfrgell gyfeirio hefyd.

Lisa Powell

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM






**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**



## Hanes Celf

**Dysgwch am waith artistiaid sy'n gysylltiedig â Chymru a'i hanes, o bortreadau i dirluniau.**

Byddwch chi'n ystyried dylanwad arlunwyr eraill a'r tueddiadau artistig sydd ynghlwm â chyfnodau hanesyddol gwahanol.

**Lisa Powell**

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM

**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

## Uwchgylchu Dillad

**Dysgwch sgiliau gwnïo defnyddiol wrth ailwampio a defnyddio dillad a thecstilau cartref y byddech chi'n cael gwared â nhw fel arall.**

Gallwch hemio neu addasu'ch dillad, yn ogystal â'u trwsio. Rhowch gynnig ar greu teganau, anrhegion, bagiau a chrefftau eraill hefyd. Mae hwn yn gwrs difyr a chymdeithasol ar gyfer dechreuwyr, y rheiny sydd am wella'u sgiliau a'r rheiny sy'n mwynhau bod yn greadigol!

Kath Evans

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM

## Sgiliau Gwnïo

**Dysgwch sut i ddefnyddio peiriant gwnïo neu wella'ch sgiliau ymhellach.**

Ewch ati i greu crefftau a dillad syml, neu ddysgu sut i addasu a thrwsio'ch eitemau. Dyma gyfle gwych i rannu syniadau a dysgu gan eraill. P'un a oes gyda chi brofiad blaenorol ai peidio - dyma gwrs sy'n addas i bawb.

Kath Evans

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM



**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**






## Cyfryngau Cymysg

**Byddwch chi'n defnyddio cyfuniad o ddeunyddiau celf a chyfryngau o'ch dewis i greu portffolio sy'n ennyn balchder.** Rhowch gynnig ar fraslunio neu ddefnyddio paent dyfrlliw, pastels neu baent acrylig i efelychu lliw, goleuni, adlewyrchiad a siapiau naturiol. Gallwch weithio ar eich liwt eich hun a rhannu'ch creadigrwydd ac argymhellion gydag eraill. Mae croeso i bawb, p'un a ydych chi'n ddechreuwr neu'n awyddus i gael hoe fach i chi'ch hun. Dewch â'ch llyfr braslunio os oes gyda chi un.

**Juliette Salter**
**2 awr yr wythnos** | **15 wythnos** | AM DDIM

## Crefftau Tymhorol

**Cyfle i fod yn greadigol gyda phob math o ddeunyddiau, gan gynnwys tecstiliau, papur, clai a deunyddiau wedi'u hailgylchu.** Dewch i greu anrhegion ac addurniadau tymhorol ar gyfer pob achlysur. Cewch hefyd fwynhau rhannu'ch syniadau a'ch sgiliau yn ein gweithdai cefnogol a hamddenol. Mae croeso cynnes i bawb!

**Kath Evans**
**2 awr yr wythnos** | **15 wythnos** | AM DDIM

## Braslunio

**Dewch i ddysgu sut i fraslunio gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, a deall sut i drin gwrthychau gwahanol, megis eitemau llonydd, anifeiliiad, wynebau a thirluniau.**

Byddwn ni'n trafod ffurfiau, siapiau, perspectif, lliwiau a gwead. Dyma gwrs diddorol i bawb, ewch amdani!

Kath Evans

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM





## Dyfrlliw

**Byddwch chi'n dysgu amrywiaeth o dechnegau dyfrlliw i greu prosiect ar thema o'ch dewis chi.**

Juliette Salter

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM



**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

## Celf Tir

**Dewch i fwynhau defnyddio deunyddiau celf amrywiol mewn dosbarth cyfeillgar a chefnogol yn harddwch Parc Ynysangharad, Pontypridd.**

Rhowch gynnig ar fraslunio neu ddefnyddio paent dyfrlliw, pastels neu baent acrylig i efelychu lliw, goleuni, adlewyrchiad a siapiau naturiol. Gallwch weithio ar eich liwt eich hun a rhannu'ch creadigrwydd ac argymhellion gydag eraill. Mae croeso i bawb, p'un a ydych chi'n ddechreuwr neu'n awyddus i gael hoe fach i chi'ch hun. Dewch â'ch llyfr braslunio os oes gyda chi un.

Kath Evans
**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM

## Celf Gain

**Dewch i ddysgu am arddulliau Celf Gain drwy drafod, arbrofi â gwaith celf a chyflawni gweithgareddau braslunio.**

Byddwn ni'n edrych ar Giwbiaeth, Argraffiadaeth, Gwaith Haniaethol a llawer yn rhagor, gan astudio gweithiau enwog mewn amryiwaeth o gyfryngau. Cwrs difyr ac arbrofol!

Kath Evans
**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM





**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

## Gitâr: Dechreuwyr

**Darganfyddwch dalent newydd gyda'n Gwersi Gitâr i Ddechreuwyr!**

Os ydych chi wedi breuddwydio am ganu eich hoff gân ar gitâr neu eisiau dysgu sgil newydd, dyma'r cyfle perffaith i roi cynnig ar yr offeryn yma.
Dim profiad blaenorol? Dim problem! Byddwch chi'n teimlo'n gartrefol mewn amgylchedd dysgu cynhwysol wrth ichi gysylltu â phobl eraill sy'n ymddiddori mewn cerddoriaeth.

**Stephen Jenkins**
**1 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM





## Gitâr: Gwella'ch sgiliau

**Ar gyfer chwaraewyr sydd eisoes yn adnabod ychydig o gordiau, mae'r cwrs yma'n cynnig amgylchedd cefnogol gyda llyfr caneuon pwrpasol, fideos ar-lein a grŵp o gyfoedion cyfeillgar.**

Dysgwch hyd at ddeg cân bob tymor a gwella'ch sgiliau drwy ymarfer gydag ensemble. Gwych i gitarwyr sydd am wella neu sydd eisiau chwarae caneuon gyda phobl o'r un anian.

**Stephen Jenkins**
**1 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM

**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

## Ysgrifennu Cerddoriaeth

**Mae'r cwrs yma'n gyflwyniad i fyd cyfansoddi ac ysgrifennu caneuon sy'n addas i bawb.**

Byddwch chi'n edrych ar ddilyniant cordiau a thechnegau cyfansoddi poblogaidd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ysgrifennu geiriau mewn modd creadigol.

**Juliette Salter**

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM

## Ysgrifennu Creadigol

**Byddwch yn greadigol gyda thasgau ysgrifennu wythnosol amrywiol a rhannu eich gwaith mewn amgylchedd meithringar a chefnogol.**

Archwiliwch ffuglen, ysgrifennu ffeithiol a barddoniaeth i herio eich hun neu ddefnyddio'r dosbarth i ddatblygu arfer ysgrifennu. Ymunwch ag un o'r grwpiau cyfeillgar hyn er mwyn eich helpu chi i ysgrifennu.

**Stephen Jenkins**

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM



**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

## Cymorth Cyntaf Brys yn y Gweithle: Lefel 3

**Dyma gwrs lefel 3 wedi'i achredu sy'n ymdrin â phob agwedd ar gymorth cyntaf gan gynnwys defnyddio diffibriliwr ac adfywio cardio-pwlmonaidd.**

Mae'n ddelfrydol ar gyfer dechreuwyr neu bobl sydd â phrofiad o gymorth cyntaf.

Lara Buckland • Tim Davies | 1 diwrnod | £45

## Cymorth Cyntaf Pediatrig: Lefel 3

**Dyma gwrs cymorth cyntaf lefel 3 gyda phwyslais ychwanegol ar drin aelodau iau'r gymdeithas.**

Mae'n dal i gynnwys rhai hanfodion cymorth cyntaf cyffredinol.

Lara Buckland • Tim Davies | 1 diwrnod | £45

## Diogelwch Bwyd: Lefel 2

**Mae'r cwrs yma'n addas i chi os ydych chi eisiau gweithio yn y diwydiant bwyd.**

Dyma gwrs lefel 2 wedi'i achredu'n llawn sydd wedi'i gydnabod ledled Ewrop.

Lara Buckland • Tim Davies | 1 diwrnod | £30

## Iechyd a Diogelwch: Lefel 2

**Mae'r Cymhwyster Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle yma'n addas ar gyfer pob gweithiwr.**

Bydd y cwrs yn helpu dysgwyr i feithrin dealltwriaeth well o faterion iechyd a diogelwch, yn ogystal ag egluro'r rhan sydd gan bawb i'w chwarae wrth sicrhau bod yr ardal waith yn ddiogel.

Tim Davies | 1 diwrnod | £30

**Mae cyrsiau cyn-gyflogaeth ar gael**

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 01443 750077

**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

## "Amdanaf fi" Bywyd iach, meddwl iach

**Bydd y cwrs yma'n egluro sut mae modd i chi leddfu straen a gorbryder mewn nifer o ffyrdd.**

Bydd y cwrs yn eich helpu chi i feithrin hunanhyder er mwyn byw bywyd iach.

Juliette Salter

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM

## Aromatherapi

Bydd y cwrs hwn yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol i chi o sut i gymysgu olewau hanfodol ar gyfer tylino aromatherapi.

Gail McGarvey

**2 awr yr wythnos** **15 wythnos** AM DDIM



**DYDDIADAU A LLEOLIADAU'R CYRSIAU:**
Sganiwch yma neu ewch i
**www.rctcbc.gov.uk/DysguOedolionynyGymuned**

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Cymunedau am Waith + Communities for Work

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwasanaeth Cymorth a Sgiliau Cyflogaeth

## Rhondda Cynon Taf

# Work & Skills Team



## Allwn ni eich helpu i wneud y canlynol?

## we can help you to:

| | |
|---|---|
| Magu'ch hyder | Increase your confidence |
| Gwella'ch sgiliau digidol | Improve your digital skills |
| Dechrau gwirfoddoli | Begin volunteering |
| Gwella'ch iechyd a'ch lles | Improve your health & wellbeing |
| Ennill cymwysterau | Gain qualifications |
| Gwella'ch CV | Enhance your CV |
| Cyflwyno cais am swydd | Apply for work |
| Datblygu'ch sgiliau cyfweliad | Develop your interview skills |
| Datblygu'ch sgiliau wrth weithio | Upskill whilst you work |

Gall ein carfan fedrus o Weithwyr Brysbennu, Gweithwyr Ymgysylltu, Gweithwyr Allweddol, Mentoriaid Cyflogaeth a Mentoriaid Cymorth yn y Gwaith gynnig ystod o sesiynau cymorth i unigolion ac i grwpiau er mwyn bodloni'ch anghenion o ran cyflogadwyedd.

Our skilled team of Triage, Engagement and Key Workers, Employment Mentors and In-Work Support Mentors can offer a range of one-to-one and group support sessions to suit your employability needs.

Am ragor o wybodaeth:
For more information, contact us:
**Ffôn | Tel: 01443 425761**
**E-bost: gwaithasgiliau@rctcbc.gov.uk**
**Email: workandskills@rctcbc.gov.uk**

RHONDDA CYNON TAF

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

# Hyrwyddo'r Gymraeg
## yn Rhondda Cynon Taf
# Promoting the Welsh Language
## in Rhondda Cynon Taf

**Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn cynnig cyfleoedd i chi ddefnyddio eich Cymraeg ar draws Rhondda Cynon Taf drwy amryw o weithgareddau gwahanol.**

Rydym yn ffocysu ein rhaglen ar rieni ifainc a'r gweithlu yn ogystal â rhoi cyfleoedd i ddefnyddio eich Cymraeg yn anffurfiol.

**Mae cyrsiau'r cyrsiau yn cynnwys:**

- **Clwb Caru Canu** Cymraeg i rieni gyda phlant dan 4 oed sy'n gyfle i ddysgu drwy ganu
- **Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle** cwrs Agored
- **Ioga Hygyrch**
- **Clwb Cymraeg misol** yng Nghlwb y Bont
- **Clwb Siarad Porth**
- **Clonc Cynon** Aberdâr
- **Grŵp Ukulele Ar ben y Byd** Tonyrefail

Rydym yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau trwy

**post@menteriaith.cymru**

os hoffech fwy o wybodaeth.

01443 407 570
post@menteriaith.cymru

Cyfeiriad / Address
Yr Hen Lyfrgell,
47 Heol Pontypridd, Y Porth
CF39 9PG

Mwynhau'r Gymraeg
MENTRAU IAITH
Ariennir gan Llywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

*Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb! - The Welsh language belongs to all of us!*

Yr Hen Lyfrgell, 47 Heol Pontypridd, Y Porth, CF39 9PG - 01443 407570 - www.menteriaith.cymru
MenterRhCT   MenterIaithRhCT   menteriaithrhct   Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Morgannwg / Glamorgan**

Cod Gostyngiad o 50%:
**WELSH26**

# Eisiau Dysgu Cymraeg?

Bydd Cyrsiau Cymraeg yn Yr Olwg ac ar lein
**yn dechrau ym Medi 2025**

Am ragor o wybodaeth:
**www.learnwelsh.cymru/mg**
**01443 483 600**


**Ydych chi'n gweithio i gorff cyhoeddus sy'n ddarostynedig i Safonau'r Gymraeg?**
Awdurdod lleol? Llywodraeth Cymru? Bwrdd Iechyd?
Efallai eich bod chi'n gymwys i fynychu gwersi Cymraeg yn rhan o'ch oriau gwaith, a hynny'n rhad ac am ddim i chi. Mynnwch sgwrs â'ch rheolwr llinell neu Swyddog y Gymraeg.

# CANOLFAN YR OLWG CENTRE

**01443 570075**

Croeso i

## Theatr Y Garth


Enw newydd y theair yng Nghanolfan Yr Olwg — yr un profiad gwych, yr un achlysuron gwych — gydag enw a logo newydd sbon!

Welcome to

## Theatr Y Garth

The new name for the theatre at Yr Olwg Centre — same great experience, same great events - just a brand-new name and logo!














## Oriau Agor y Swyddfa Docynnau:
## Box Office Opening Times:

**Dydd Mawrth - Dydd Iau / Tuesday - Thursday**

**10:00 yb/am - 16:00 yp/pm**

Cadw Lle Ar-Lein | Book Online
**rct-theatres.co.uk**

Swyddfa Docynnau | Box Office
**03000 040 444**

# FFAIR NADOLIG
# CHRISTMAS FAYRE

Dydd Gwener, 27ain Tachwedd
Friday, 27th November



**Canolfan Yr Olwg Centre**
**canolfanyrolwgcntre**
**01443 570075**






## Mae Canolfan Yr Olwg yn dathlu ei phen-bwydd yn 20 oed eleni!

Ymunwch â ni i ddathlu 20 mlynedd gyda blwyddyn anhygeoel a bywiog o achlysuron yng Nghanolfan Yr Olwg , gan gynnws cerddoriaeth fyw, achlysuron, cyrsiau, gweithgareddau hwyl i bawb!
Bydd pen-blwydd Canolfan Yr Olwg yn flwyddyn gofiadwy i'r adeilad poblogaidd yma, gyda rhaglen o achlysuron i ddathlu'r lleoliad a'i arwyddocâd yn galon y gymuned leol.

## Yr Olwg Centre is celebrating Its 20th birthday this year!

Join us in celebrating the 20th birthday with an amazing and vibrant year of events planned at Yr Olwg, including live music, events, participation, courses, activities and fun for everyone!
Yr Olwg Centre's birthday year is set to be a landmark year for this much-loved building with a programme of events developed solely as a celebration of the venue and its significance as the beating heart of the local community.

## Cyrsiau ar gael:
## Courses available:

# yrolwggartholwg.org

Ewch i wefan Yr Olwg i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Check out Yr Olwg's website for regular updates and information.

## YSTAFELLOEDD / THEATR I'W LLOGI



## ROOMS / THEATRE TO HIRE

www.yrolwggartholwg.org
golc.reception@rctcbc.gov.uk

RHONDDA CYNON TAF

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

**Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol**
**Thanks to National Lottery players**

# CALON TAF

calontaf.co.uk CalonTaf@rctcbc.gov.uk

# Canolfan Calon Taf

## CANOLFAN TREFTADAETH AC ADDYSG

**yng nghanol Parc Coffa Ynysangharad**








## ACHLYSURON A GWEITHGAREDDAU!

Ymunwch â ni am...

- Sgyrsiau hanes
- **Gweithdai crefft**
- Achlysuron lles
- **Teithiau cerdded ym myd natur,**
- Cherddoriaeth fyw o'r safle seindorf



## DARGANFOD A DYSGU

**Mae'r adnoddau rhad ac am ddim sydd ar gael yn y Ganolfan ac ar ein gwefan yn cynnwys:**

- **Llwybrau parc rhyngweithiol:**
  Bywyd Gwyllt, Coed, a Threftadaeth
- **Pecyn Adnabod Adar i Deuluoedd**
- **Pecynnau Addysgol:**
  Mae'r rhain yn addasadwy ac yn diwallu anghenion Disgyblion ar Gam Cynnydd 3








**I ymholi am logi ystafell neu i gael gwybod mwy am ein cyrsiau a'n achlysuron, anfonwch e-bost at CalonTaf@rctcbc.gov.uk**

Parc Coffa
**YNYSANGHARAD**
Pontypridd CF37 4PE

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF